

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan, Canolfan
Ddeintyddol Bargod
(‘mydentist’)**

1 Rhagfyr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol	9
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	15
5.	Y Camau Nesaf.....	17
6.	Methodoleg	18
	Atodiad A	20

Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Bargod ('mydentist') yn 13 Stryd Fawr, Bargod ar 1 Rhagfyr 2015.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Canolfan Ddeintyddol Bargod ('mydentist') yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydyn ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Bargod ('mydentist') yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Bargod a Chaerffili. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r practis yn eiddo i Integrated Dental Holdings Limited (IDH), sydd hefyd yn berchen ar nifer fawr o bractisau deintyddol ar draws y Deyrnas Unedig. Ar hyn o bryd, mae pob practis y mae IDH yn berchen arno yn cael ei ail-frandio dan yr enw 'mydentist'.

Mae Canolfan Ddeintyddol Bargod ('mydentist') yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol i gleifion preifat a chleifion y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pum nyrs, saith deintydd, un hylenydd ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

Crynodeb

Roedd yr adborth a gawsom drwy holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Roedd gan y practis systemau ar gyfer canfod ac adolygu adborth yn rheolaidd gan gleifion fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd polisi cwyno wedi'i sefydlu a phosteri wedi'u darparu gan wasanaeth corfforaethol IDH, ond roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio â threfniadau cwyno'r GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2011.

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Gwnaethom edrych ar sampl fach o gofnodion cleifion a chanfod nifer o feysydd i'w gwella, yn ymwneud yn bennaf â radiograffau (sganiau pelydr-X). Oherwydd nifer y gwelliannau hyn, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod y deintyddion yn y practis hwn yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Gwnaethom argymhell bod y practis yn rhoi sylw i hyn a'i fod yn cynnal archwiliad manwl o'r cofnodion clinigol.

Roedd y practis wedi sefydlu amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion, ond gwelsom fod angen gwneud rhai diweddariadau. O arsylwi ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm.

Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Roedd yr adborth a gawsom drwy holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Roedd gan y practis systemau ar gyfer canfod ac adolygu adborth yn rheolaidd gan gleifion fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd polisi cwyno wedi'i sefydlu a phosteri wedi'u darparu gan wasanaeth corfforaethol IDH, ond roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio â threfniadau cwyno'r GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2011.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael safbwyntiau ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cafodd 16 holiadur eu cwblhau a'u dychwelyd atom. Roedd sylwadau un claf yn cynnwys y canlynol:

“Rwy'n fodlon ar y gwasanaeth a'r driniaeth a gefais.”

Gofal gydag urddas

Gwelsom dystiolaeth oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Gwelsom fod lle ar gael (swyddfa) er mwyn i'r staff gael trafodaethau â chleifion mewn ardal breifat, oddi wrth gleifion eraill, pe bai angen. Roedd yr adborth gan y cleifion a wnaeth gwblhau'r holiaduron yn gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod o'r farn eu bod yn cael croeso gan y staff.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol. Dywedwyd wrthym fod system apwyntiadau hyblyg ar waith, ac y gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Roedd amserau wedi'u neilltuo bob dydd ar gyfer cleifion brys. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion.

Dywedodd naw claf o'r 16 o gleifion nad oeddent yn gwybod sut i gael gofal deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd y tu allan i fynedfa'r practis a oedd yn cynnwys manylion y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng fel bod cleifion yn gallu cael gofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau. Fodd bynnag, o ystyried

syllwadau'r cleifion, dylai'r practis ystyried a ellid sicrhau bod y wybodaeth ynghylch triniaeth y tu allan i oriau yn fwy amlwg i gleifion.

Cadw'n iach

Dyweddodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwnaethom hefyd nodi bod taflenni hyrwyddo iechyd, gan gynnwys cyngor ynghylch gofalu am ddannedd plant a phoster ynglŷn â chanser y geg, ar gael yn y dderbynfa.

Dylai'r practis ystyried hefyd sut y gallent sicrhau bod gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, gellir defnyddio ffont/testun mwy a darparu'r wybodaeth mewn ieithoedd eraill gan gynnwys Cymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion. Y rheswm am hyn yw bod y Safonau Iechyd a Gofal yn nodi bod yn rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a dull sy'n hygyrch, dealladwy ac yn sensitif i'w hanghenion.

Gofal unigol

Ar y cyfan, mae mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a chleifion eraill sydd ag anawsterau symudedd, ac mae toiled hygyrch ar gael at ddefnydd cleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi sefydlu systemau ar gyfer casglu adborth gan gleifion, trwy ddarparu blwch awgrymiadau, system ar-lein, a thrwy arolwg ar ffurf negeseuon testun. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr practis yn gallu gweld y canlyniadau adborth ac unrhyw sylwadau gan gleifion. Dywedwyd wrthym y cedwir cofnod o adborth cleifion, fel bod y rheolwr practis yn gallu pennu p'un ag oes unrhyw batrymau.

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefn er mwyn i'r holl gleifion allu mynegi pryderon (cwynion), p'un ag oeddent yn gleifion preifat neu'n gleifion y GIG. Mae'r polisi cwyno'n cael ei ddarparu a'i ddiweddarau'n ganolog yn hytrach na gan y practis. Gwelsom fod dau boster cwynion ar yr hysbysfwrdd yn y man aros, ond bod y cyfnod a nodwyd ar gyfer ymdrin â'r cwynion yn anghyson rhwng y poster hyn. Gwelsom fod y cyfnod ar gyfer ymdrin â chwynion yn cydymffurfio ar y cyfan â'r trefniadau ar gyfer mynegi pryderon ynghylch triniaeth gan y GIG (a elwir yn 'Gweithio i Wella'). Fodd bynnag, nid oeddent yn

cydymffurfio â'r cyfnod a nodir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.¹

Roedd manylion y sefydliadau er mwyn i gleifion y GIG allu cysylltu â nhw yn eisiau yn y weithdrefn gwyno, gan gynnwys manylion y bwrdd iechyd lleol, y cyngor iechyd cymuned (a allai ddarparu cefnogaeth eiriolaeth i gleifion), a manylion cyswllt Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roedd manylion cyswllt AGIC hefyd yn eisiau yn y weithdrefn. Roedd y poster hefyd yn cynnwys cyfeiriad camarweiniol at 'ombwdsmon y gwasanaeth iechyd' a 'rheoliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus', a gwnaethom argymhell y dylid naill ai egluro hyn neu ei ddileu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid nodi'r diweddariadau canlynol yn y polisi/gweithdrefn gwyno a'r poster:

- ***Rhaid i'r poster cwynion arddangos gwybodaeth gyson ynghylch y cyfnodau ar gyfer ymdrin â chwynion a'r weithdrefn ar gyfer hynny***
- ***Rhaid i'r amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion gydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat***
- ***Dylid cynnwys manylion cyswllt AGIC, y bwrdd iechyd lleol, a'r cyngor iechyd cymuned yn y polisi gwyno a'r poster***
- ***Dylid dileu cyfeiriadau camarweiniol at 'ombwdsmon y gwasanaeth iechyd' a 'rheoliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus' oddi ar y poster cwynion.***

Gwelsom dystiolaeth fod cwynion ysgrifenedig yn cael eu cofnodi'n briodol a'u rhoi ar system gyfrifiadurol, yn unol â pholisi'r cwmni. Dywedwyd wrthym fod cwynion ar lafar a chwynion anffurfiol hefyd yn cael eu cofnodi. Byddai unrhyw themâu a fyddai'n dod i'r amlwg yn cael eu gwirio gan y rheolwr practis ac yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd y practis.

Gwnaethom sylwi bod arwydd ar gael yn nodi enwau'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis. Fodd bynnag, yn unol â safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, dylid arddangos enwau a rhifau cofrestru pob aelod o'r staff (gan gynnwys y staff sy'n gweithio ar ddydd Sadwrn), er mwyn i gleifion gael gwybodaeth am y

¹ Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Gwnaethom argymhell bod y practis yn rhoi sylw i hyn.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Gwnaethom edrych ar sampl fach o gofnodion cleifion a chanfod nifer o feysydd i'w gwella, yn ymwneud yn bennaf â radiograffau (sganiau pelydr-X). Oherwydd nifer y gwelliannau hyn, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod y deintyddion yn y practis hwn yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Gwnaethom argymhell bod y practis yn rhoi sylw i hyn a'i fod yn cynnal archwiliad manwl o'r cofnodion clinigol.

Gofal diogel

Cyfleusterau clinigol

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal er mwyn sicrhau defnyddio dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel yn y practis. Gwelsom fod y practis yn amlwg yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli'n strategol ac wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis wedi gwneud trefniadau addas ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus.

Roedd seler ar gael yn y practis lle'r oedd y peiriant ar gyfer darparu aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth (cywasgydd).Gwelsom fod y seler hon yn anniben a bod bocsys a dodrefn yn atal mynediad at y cywasgydd. Roedd hyn yn golygu y byddai'n anodd i staff gynnal archwiliadau rheolaidd ar y peiriant, yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr practis, a gadarnhaodd fod yr annibendod oherwydd y gwaith ail-frandio diweddar. Gan fod y cywasgydd yn cael ei ystyried yn rhywbeth a allai gynnau tân, roeddem yn bryderus y byddai maint yr annibendod yn agos at y peiriant yn peri perygl o dân. Gwelsom hefyd fod allanfa dân ar gyfer y seler, ond ei bod wedi'i rhwystro'n rhannol gan ysbwriel. Roedd dau ddiffoddwr tân yn y man hwn, ond nid oeddent wedi cael eu gwasanaethu o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer y peiriant cywasgydd, yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Rhaid rhoi sylw i'r amgylchedd yn y seler i sicrhau bod yr annibendod yn cael ei symud oddi yno er mwyn lleihau'r risg o dân, ac nad yw'r allanfa dân yn y seler yn cael ei rhwystro.

Rhaid clirio'r ffordd at y cywasgydd.

Dylai'r practis edrych ar ei asesiad risg tân ar gyfer y seler, a sicrhau bod unrhyw ddiffoddwyr tân yn y man hwn yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Rheoli heintiau

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd i ni weld tystiolaeth o fesurau atal a rheoli heintiau ar waith sy'n seiliedig ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05).² Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd cyfarpar diogelu personol - megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid - ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinciau penodol i olchi dwylo
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer wedi'u cadw, ac roedd yr offer a ddefnyddiwyd ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol i'w gweld mewn cyflwr da

Gwelsom fod offer deintyddol yn cael eu storio'n briodol ac yn cael eu dyddio. Gwnaethom sylwi yr aed â'r offer i'r ystafelloedd triniaeth i gael eu lapio, yn hytrach na defnyddio'r man glân yn yr ystafell ddadheintio, yn unol â'r arfer gorau. Gwnaethom argymhell bod y practis yn diwygio'r broses hon.

Gwnaethom siarad â'r staff oedd yn rhan o'r broses ddadheintio, a dywedwyd wrthym fod y practis yn brysur iawn ac y byddent yn elwa ar gael nyrs ddadheintio benodol ar gyfer prosesu offer. Dywedwyd wrthym eu bod yn bwriadu recriwtio nyrs ddadheintio benodol yn y dyfodol agos.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau WHTM 01-05 wedi'u cwblhau, ond gwnaethom gynghori'r practis i gael yr archwiliadau llawn a ddarperir gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru.

² <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444>

Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg/cwympto). Roedd y cyfarpar argyfwng a'r cyffuriau yn cael eu cadw mewn bag a seliwyd yn y practis, ac nid oeddem yn gallu gwirio hyn. Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd.

Diogelu

Roedd polisïau diogelu'r cwmni IDH wedi'u sefydlu ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Cadarnhaodd y practis fod y staff clinigol wedi dilyn hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff allu mynegi unrhyw bryderon. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod y practis yn gwneud gwiriadau cyn-cyflogaeth ar gyfer unrhyw aelodau posibl o staff cyn iddynt ymuno â'r practis.

Offer radiograffeg

Gwelsom ddogfennau oedd yn nodi bod y peiriannau pelydr-X wedi'u gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw yn rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Yn ogystal â hyn, roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chymryd radiograffau wedi cwblhau hyfforddiant sy'n bodloni'r safonau ar gyfer gweithwyr sy'n cynnal y gweithdrefnau hyn. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol³ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Gwnaethom sylwi bod cymhwyster hyfforddiant un o'r deintyddion yn dod i ben yn fuan, a gwnaethom argymhell y dylid cynnal hyfforddiant diweddarau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Gwelsom fod archwiliadau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau ansawdd delweddau'r peiriannau pelydr-X. Roedd y practis yn prosesu'r peiriannau pelydr-X â llaw ac yn gwirio'r cemegau er mwyn helpu i sicrhau bod y delweddau'n glir. Gwelsom nad oedd yr archwiliadau ar gyfer monitro ansawdd ffilmiau pelydr-X yn cael eu cynnal yn effeithiol (trwy gyfeirio at ffilm

³ Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

pelydr-X enghreifftiol er mwyn cymharu), ac roedd hynny'n golygu y byddai'n anodd gweld dirywiad yn ansawdd y delweddau. Trafodwyd hyn â'r practis, a gwnaethom eu cynghori i fynd i'r afael â hyn.

Gwnaethom edrych ar y rheolau lleol yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roeddent yn nodi sut i ddefnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel. Gwelsom fod y rheolau lleol yn nodi'n benodol bod pob un o'r deintyddion â hawl i ddefnyddio'r peiriant. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys y deintyddion sy'n gweithio yn y practis ar ddydd Sadwrn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid diweddarau'r rheolau lleol i naill ai nodi swyddogaethau'r unigolion sydd â hawl i ddefnyddio'r peiriant pelydr-X, neu gynnwys enwau'r ddau ddeintydd sy'n gweithio yn y practis ar ddydd Sadwrn.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl fach o gofnodion cleifion rhai o'r deintyddion yn y practis. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod angen gwella'r cofnodion a bod diffyg manylion. Roeddem hefyd o'r farn bod angen gwella nodiadau un deintydd yn arbennig. Gwnaethom ganfod nifer o feysydd i'w gwella, yn ymwneud â radiograffau (sganiau pelydr-X) yn bennaf.

- Roedd rhai delweddau pelydr-X yn eisiau mewn ffeiliau cleifion, a oedd yn golygu efallai bod angen cymryd sganiau pelydr-X ychwanegol, a hynny'n ddiangen.
- Gwelsom un enghraifft lle nad oedd cofnodion llawn yn dilyn sgan pelydr-X (oedd yn dangos cefnddant dan y deintgig) wedi'u nodi yn y nodiadau, ac roedd hynny'n golygu efallai y byddai sgan pelydr-X yn cael ei gymryd yn ddiangen yn y dyfodol.
- Nid oedd cyfiawnhad dros gymryd sganiau pelydr-X ac nid oedd y canfyddiadau clinigol yn dilyn sganiau pelydr-X (beth roedd y sganiau pelydr-X yn ei ddangos) yn cael eu cofnodi bob amser. Mae hyn yn ofynnol dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.
- Gwelsom fod rhai o'r delweddau pelydr-X o ansawdd diagnostig gwael oherwydd camgymeriadau o ran gosod y peiriant pelydr-X. Nodwyd mai problem o ran hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant pelydr-X oedd hyn a bod angen rhoi sylw i hynny.
- Gwelsom rai sganiau pelydr-X oedd o ansawdd gwaeth na'r radd a bennwyd, ac roedd hynny'n golygu eu bod wedi cael eu graddio'n anghywir. Mae pennu gradd yn gywir yn rhan bwysig o

sicrhau ansawdd ac yn helpu i leihau nifer y sganiau pelydr-X a roddir i gleifion.

- Nid oedd gwiriadau ar lafar o ran hanes meddygol, a gynhaliwyd yn ystod apwyntiadau triniaeth yn dilyn yr archwiliad cychwynol, bob amser yn cael eu cofnodi.
- Gwelsom un achos lle nodwyd bod risg claf o gael clefyd periodontol yn isel, ond oherwydd bod y claf yn ysmygwr, mae hyn yn dangos ei fod dan risg uwch.
- Roedd y cofnodion ar gyfer y triniaethau a roddwyd weithiau'n aneglur ac yn anghyflawn, ac roedd hynny'n golygu ei bod yn anodd pennu pa driniaeth oedd wedi'i darparu.
- Gwelsom un enghraifft o hanes cymdeithasol anghywir, lle'r oedd y deintydd wedi rhoi cyngor i'r claf ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu, ond roedd y cofnodion yn dangos nad oedd y claf yn ysmegu.

Mae'n ofynnol dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 bod yn rhaid lleihau datguddio cleifion i ymbelydredd. Ar sail nifer y meysydd i'w gwella a nodir uchod, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod y deintyddion yn y practis hwn yn bodloni'r gofyniad hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i bob deintydd yn y practis wneud gwelliannau i'r ffordd y mae radiograffau'n cael eu cymryd a'u cofnodi er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â RhYI(DM).

Yn ogystal â'r hyn a nodir uchod, dylid gwneud y gwelliannau canlynol i gofnodion cleifion, gan gynnwys cofnodi'r canlynol mewn modd cyson a chywir:

- ***Diweddarau hanesion meddygol***
- ***Risg o glefyd periodontol***
- ***Y driniaeth a ddarparwyd***
- ***Hanes cymdeithasol***

O ystyried y gwelliannau y mae angen eu gwneud i gofnodion cleifion, gwnaethom argymhell y dylai'r deintyddion gynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol gyda'i gilydd er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd a'r arfer gorau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r deintyddion yn y practis gynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol a rhannu'r hyn a ddysgwyd o ganlyniad i hyn.

Gwelsom hefyd fod cypyrddau ffeilio a oedd yn cynnwys cofnodion cleifion ar bapur mewn ystafell driniaeth wag nad oedd dan glo. Roedd hyn yn golygu bod posibilrwydd o gael mynediad i wybodaeth am gleifion heb ganiatâd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion ar bapur a gedwir yn y practis yn ddiogel.

Gofal effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth fod gwahanol archwiliadau'n cael eu cynnal yn y practis, ond y rheolwr practis oedd yn cynnal yr archwiliadau hyn yn bennaf. Gwnaethom drafod canfyddiadau'r archwiliadau o'r cofnodion clinigol a gweld nad oedd y rhain wedi amlygu'r problemau yr oeddem ni wedi'u canfod yn ein sampl a ddewiswyd ar hap.

Dywedwyd wrthym fod cyfarwyddwr clinigol ar gael i'r deintyddion trwy gwmni IDH er mwyn rhoi cymorth clinigol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol ar gyfer cynnal adolygiad gan gymheiriaid nac i staff gynnal archwiliadau gyda'i gilydd. Gwnaethom hysbysu'r practis fod dysgu o adolygiad gan gymheiriaid ac archwiliadau yn helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau cydweithrediadol, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd y practis wedi sefydlu amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion, ond gwelsom fod angen gwneud rhai diweddariadau. O arsylwi ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm.

Mae'r practis yn eiddo i ddarparwr corfforaethol o'r enw Grŵp IDH. Ar hyn o bryd, mae pob practis deintyddol IDH yn cael ei ail-frandio o dan yr enw 'mydentist'. Cyfrifoldeb y rheolwr practis yw rheoli'r practis o ddydd i ddydd, ac mae'n gweithio yn y practis am ddau neu dri diwrnod yr wythnos ac yn rheoli practis arall. Dywedwyd wrthym fod nyrs arwain hefyd yn cynorthwyo gyda'r dyletswyddau rheoli a bod rheolwr ardal ar gael hefyd.

Dywedwyd wrthym y cynhaliwyd cyfarfodydd staff yn fisol a bod y rhain yn cael eu cofnodi. Dywedwyd wrthym hefyd fod cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod trefniadau rheoli effeithiol yn cael eu cynnal yn y practis hwn.

Gwelsom esiampl o gofnodion i ddangos bod staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd gan bob aelod o'r staff fynediad at ddetholiad o hyfforddiant ar-lein a ddarparwyd trwy gwmni IDH. Dywedwyd wrthym fod pob aelod newydd o staff yn cymryd rhan mewn rhaglen sefydlu orfodol fel rhan o bolisi'r cwmni.

Dywedwyd wrthym fod y rheolwr practis wedi cynnal arfarniadau chwe mis ar gyfer y staff nyrsio. Byddai'r rheolwr practis hefyd yn rhoi sylw i unrhyw broblemau gyda'r deintyddion, ond ni chynhaliwyd unrhyw arfarniadau ffurfiol ar gyfer y deintyddion. Mae gwerthusiadau'n bwysig i helpu unigolion i ddatblygu a chynnal cymhwysedd staff, ac er mwyn canfod unrhyw anghenion hyfforddi. Gwnaethom argymhell y gallai hyn fod yn rhywbeth y gallai arweinydd clinigol ei gynnal ar gyfer y deintyddion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r holl staff, gan gynnwys deintyddion, gael arfarniadau rheolaidd fel ffordd o sicrhau parhad yn ansawdd y gofal a ddarperir.

Cadarnhaodd y practis fod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd y deintyddion a oedd yn darparu triniaethau preifat wedi'u cofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael o fewn y practis. Gwelsom fod angen i un deintydd ddiweddarau ei dystysgrif, a gwnaed trefniadau ar gyfer hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedwyd wrthym fod dau

ddeintydd a oedd yn gweithio yn y practis ar ddydd Sadwrn ar gontract cyfnod penodol, ond nid oedd eu dystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos. Cytunodd y practis i roi sylw i hyn.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Dywedwyd wrthym eu bod wedi gwneud cais am dystysgrifau cyfredol a gwelsom dystiolaeth o hyn.

Cadarnhaodd y practis fod cofnodion am statws imiwnedd hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Gwelsom sampl o gofnodion a oedd yn cadarnhau hyn.

Gwelsom fod gan y practis ystod o bolisïau, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith. Roedd polisïau a gweithdrefnau yn cael eu darparu a'u diweddarau'n ganolog gan y sefydliad corfforaethol, ac nid oedd gan y practis cyfrifoldeb unigol ar eu cyfer.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau yn y polisïau ar ddiogelu preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion, a chanfod nad oeddent yn cynnwys manylion ynghylch sut y byddid yn diogelu urddas cleifion. Gwnaethom hefyd nodi bod angen diweddarau'r polisi rheoli heintiau gan ei fod yn cyfeirio at ganllawiau a oedd yn berthnasol i Loegr, yn hytrach na'r canllawiau a geir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 sy'n benodol i Gymru.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid manylu ar y trefniadau ar gyfer diogelu urddas a phreifatrwydd cleifion mewn polisi.

Dylid diweddarau'r polisi rheoli heintiau i gynnwys y canllawiau cywir ar gyfer Cymru (WHTM 01-05).

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol Bargod ('mydentist') yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁴ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A o'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Canolfan Ddeintyddol Bargod ('mydentist')

Dyddiad yr arolygiad: 1 Rhagfyr 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
7	<p>Dylid nodi'r diweddariadau canlynol yn y polisi/gweithdrefn gwyno a'r poster:</p> <ul style="list-style-type: none">Rhaid i'r poster cwynion arddangos gwybodaeth gyson ynghylch y cyfnodau ar gyfer ymdrin â chwynion a'r weithdrefn ar gyfer hynnyRhaid i'r amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion gydymffurfio â'r	<p>Safonau lechyd a Gofal 6.3; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), Adran 15 (4a); Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5</p>	<p>Ar hyn o bryd, mae'r tîm cymorth i gleifion yn adolygu'r poster cwynion er mwyn bodloni'r holl ganllawiau. Bydd fersiwn newydd yn cael ei hanfon at bob practis.</p> <p>Yn y cyfamser, bydd poster arall yn cael ei ddarparu ar gyfer y practis i'w arddangos hyd y bydd yr un newydd ar gael.</p>	<p>Mike Mckessy, Rheolwr Cymorth i Gleifion</p> <p>Rheolwr Practis / Swyddog Rheoleiddiol</p>	<p>31 Ionawr 2016</p> <p>13 Ionawr 2016</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylid cynnwys manylion cyswllt AGIC, y bwrdd iechyd lleol, a'r cyngor iechyd cymuned yn y polisi cwyno a'r poster Dylid dileu cyfeiriadau camarweiniol at 'ombwdsmon y gwasanaeth iechyd' a 'rheoliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus' oddi ar y poster cwynion. 				
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
8-9	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer y peiriant cywasgydd, yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.</p> <p>Rhaid rhoi sylw i'r amgylchedd yn y seler i sicrhau bod yr annibendod yn</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), Adran 14 (3); Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a</p>	<p>Mae'r rheolwr practis wedi bod mewn cysylltiad â'r bobl gosod y cywasgydd, ac mae'n aros i gael y rhestr wirio ddyddiol gyfredol a fydd yn cael ei rhoi ar waith unwaith y bydd ar gael.</p> <p>Mae rhestri gwirio dyddiol yn</p>	<p>Rheolwr Practis</p>	<p>15 Ionawr 2016</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>cael ei symud oddi yno er mwyn lleihau'r risg o dân, ac nad yw'r allanfa dân yn y seler yn cael ei rhwystro.</p> <p>Rhaid clirio'r ffordd at y cywasgydd.</p> <p>Dylai'r practis edrych ar ei asesiad risg tân ar gyfer y seler, a sicrhau bod unrhyw ddiffoddwyr tân yn y man hwn yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.</p>	2.9	<p>cynnwys troi switsh ynysu'r cywasgydd ymlaen a'i ddiffodd.</p> <p>Mae'r holl annibendod yn y seler wedi'i drefnu i gael ei symud oddi ar y safle.</p> <p>15 Ionawr 2016</p> <p>Bydd y llwybr ar y cywasgydd wedi'i glirio'n gyfan gwbl unwaith y bydd yr annibendod wedi'i symud oddi ar y safle.</p> <p>Mae'r asesiad risg tân wedi'i adolygu ac ychwanegwyd y diffoddwr tân at ran o'r archwiliadau wythnosol/misol i'w cynnal yn y llyfr cofnodion tân.</p> <p>Bydd y diffoddwr tân hefyd yn rhan o'r rhaglen cynnal a chadw, a bydd yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd.</p> <p>Rheolwr Practis – 15 Ionawr 2016</p>		
11	Dylid diweddarau'r rheolau lleol i naill	Rheoliadau	Mae'r rheolau lleol bellach wedi	Rheolwr	Wedi'i

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	ai nodi swyddogaethau'r unigolion sydd â hawl i ddefnyddio'r peiriant pelydr-X, neu gynnwys enwau'r ddau ddeintydd sy'n gweithio yn y practis ar ddydd Sadwrn.	Deintyddiaeth Breifat (Cymru), Adran 14(1); Safonau lechyd a Gofal 2.9	cael eu diweddarau, a'r deintyddion ar ddydd Sadwrn wedi'u hychwanegu.	Practis	gyflawni
12	<p>Rhaid i bob deintydd yn y practis wneud gwelliannau i'r ffordd y mae radiograffau'n cael eu cymryd a'u cofnodi er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â RhYI(DM).</p> <p>Yn ogystal â'r hyn a nodir uchod, dylid gwneud y gwelliannau canlynol i gofnodion cleifion, gan gynnwys cofnodi'r canlynol mewn modd cyson a chywir:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau hanesion meddygol • Risg o glefyd periodontol • Y driniaeth a ddarparwyd • Hanes cymdeithasol 	Safonau lechyd a Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000	<p>Bydd y Rheolwr Cymorth Clinigol yn ymweld â'r deintyddion ar 14 Ionawr.</p> <p>Bydd pob deintydd yn cael cyfarfod â'r rheolwr cymorth clinigol, a fydd yn adolygu eu harchwiliadau ac yn trafod yr hyn sydd angen ei ddysgu a'r camau gweithredu sy'n ofynnol. Byddant yn derbyn dogfen cynllun cymorth, a bydd y rheolwr cymorth clinigol yn ei hadolygu yn ystod ei ymweliad cyntaf ymhen tri mis.</p> <p>Cynhelir ail archwiliad o'r sganiau pelydr-X a'r cofnodion cleifion ymhen tri mis, a byddant yn cael eu hadolygu gan y rheolwr cymorth clinigol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau.</p>	Rheolwr Cymorth Clinigol Rheolwr Practis	Ail archwiliadau i'w cynnal cyn 10 Ebrill 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
12	Dylai'r deintyddion yn y practis gynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol a rhannu'r hyn a ddysgwyd o ganlyniad i hyn.	Safonau lechyd a Gofal 3.3 a 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4	<p>Clinigwyr i gwblhau archwiliadau o gardiau cofnod ei gilydd bob tri mis yn y dyfodol yn hytrach na'r rheolwr practis, yn unol â'r hyn a argymhellir yn adborth arolygwyr AGIC.</p> <p>Bydd yr hyn a ddysgwyd yn cael ei rannu ymysg y deintyddion yn ystod y cyfarfod adolygu nesaf gyda'r rheolwr cymorth clinigol.(yn chwarterol)</p> <p>Bydd yr hyn a ddysgwyd yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfod staff ym mis Ebrill ac yn cael ei rannu gyda'r tîm.</p>	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol Deintyddion Rheolwr Practis	Ail archwiliadau i'w cynnal cyn 10 Ebrill 2016
13	Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion ar bapur a gedwir yn y practis yn ddiogel.	Safonau lechyd a Gofal 3.5; Deddf Diogelu Data 1998	<p>Mae pob cwpwrdd yn cael ei gloi a chaiff allweddi eu tynnu allan pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.</p> <p>Bydd yn cael ei drafod gyda'r tîm yn ystod y cyfarfod staff nesaf er mwyn cadarnhau'r polisi Diogelu Data, a bydd yn cael ei nodi yng nghofnodion y cyfarfod.</p>	Rheolwr Practis / Tîm	19 Ionawr 2016
13	Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar	Safonau	Bydd y busnes yn llunio rhaglen	Swyddogion	Diwedd mis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau cydweithrediadol, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.	lechyd a Gofal 3.1 a 3.3	sicrhau ansawdd ffurfiol. Bydd hon yn cael ei rhannu ymysg pob practis. Yn y cyfamser, mae'r practis wedi derbyn rhestr o'r archwiliadau disgwylidig a'r amserlen ar gyfer hynny. Bydd cyngor pellach yn cael ei anfon ynglŷn â sut i rannu arfer gorau unwaith y bydd y cwmni wedi cymeradwyo'r canllawiau.	Rheoleiddio	Chwefror
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
14	Dylai'r holl staff, gan gynnwys deintyddion, gael arfarniadau rheolaidd fel ffordd o sicrhau parhad yn ansawdd y gofal a ddarperir.	Safonau lechyd a Gofal 7.1	Bydd y rheolwr practis yn cynnal cyfarfodydd un i un gyda'r deintyddion yn rheolaidd. Bydd y rheolwr cymorth clinigol yn ymweld â phob deintydd yn chwarterol neu ddwywaith y flwyddyn er mwyn llunio cynllun cymorth ar gyfer pob unigolyn. Bydd pob aelod o'r staff yn derbyn arfarniadau o leiaf bob chwe mis yn unol â chanllawiau'r cwmni.	Rheolwr Practis / Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	Diwedd mis Ionawr
15	Dylid manylu ar y trefniadau ar gyfer	Safonau	Mae'r cwmni wrthi'n adolygu ei	Swyddogion	31 Ionawr

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>diogelu urddas a phreifatrwydd cleifion mewn polisi.</p> <p>Dylid diweddarau'r polisi rheoli heintiau i gynnwys y canllawiau cywir ar gyfer Cymru (WHTM 01-05).</p>	lechyd a Gofal 2.4; 4.1	bolisiâu, a bydd y polisi preifatrwydd ac urddas yn cael ei ddiweddarau a bydd ar gael erbyn diwedd mis Ionawr. Cafodd y polisi rheoli heintiau ei ddiweddarau ym mis Rhagfyr ac mae'n adlewyrchu canllawiau Memorandwm Technegol lechyd Cymru. Mae llawlyfr cymorth y practis ynghylch rheoli heintiau (polisi rheoli heintiau lleol) yn cynnwys cyfeiriadau at y Memorandwm Technegol lechyd hefyd.	Rheoleiddio	2016

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): Sarah-Jane Davies; Lisa O'Leary

Teitl: Rheolwr Practis; Swyddog Rheoleiddio

Dyddiad: 12 Ionawr 2016

